

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No: 3	
English	Cymraeg
Int 43 DL34	
Brecon National Eisteddfod programme	Rhaglen Eisteddfod Genedlaethol Aberhonddu
In August 1889, the Royal National Eisteddfod was held in Brecon for four days. More than 24,000 people attended the main pavilion which was at the top of Cerrigcochion Road. Crowds gathered to watch competitions in music and poetry. Although the programme says 'Royal', no member of the Royal family actually attended.	Ym mis Awst 1889, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol yn Aberhonddu am bedwar diwrnod. Aeth dros 24,000 o bobl i'r prif bafiliwn a oedd ar ben Heol Cerrig Cochion. Casglodd tyrfaoedd at ei gilydd i wyllo cystadlaethau cerddoriaeth a barddoniaeth. Er bod y rhaglen yn dweud 'Brenhinol', nid oedd yr un aelod o'r teulu Brenhinol yn bresennol mewn gwirionedd.
Int 46 DL33	
Welsh Bible Chest	Cist Beibl Cymreig
This miniature chest is thought to have been made in Brecon during the 18 th century. Called a 'coffor bach' in Welsh, it may have been used to store a Bible or important household documents. The chest belonged to Thomas Price who worked for Coppage & Sons, Ironmongers, in Brecon during the early 20 th century.	Credir bod y gist fechan hon wedi ei gwneud yn Aberhonddu yn ystod y 18 ^{fed} ganrif. Gelwid yn 'goffor bach', ac mae'n bosibl ei bod wedi ei defnyddio i gadw Beibl neu ddogfennau cartref pwysig. Roedd y gist yn eiddo i Thomas Price a fuodd yn gweithio i haearnwerthwyr Coppage & Sons yn Aberhonddu ar ddechrau'r 20 ^{fed} ganrif.
Int 52 DL32	
Church pulpit	Pulpud Eglwys
This pulpit was rescued from St Illtyd's Church which used to be on Mynydd Illtyd just west of Brecon. It was an isolated church building providing a place of worship for a remote farming community. The last building was erected in 1858 but fell into disrepair and was finally pulled down in the 1990s.	Achubwyd y pulpud hwn o Eglwys Sant Illtyd a arferai fod ar Fynydd Illtyd, tua'r gorllewin o Aberhonddu. Roedd yn adeilad eglwys ynysig a oedd yn addoldy ar gyfer cymuned ffermio anghysbell. Adeiladwyd yr adeilad olaf ym 1858 ond dadfeiliodd ac yna cafodd ei dymchwel yn y 1990au.
Int 53 DL32	
Vicar's desk	Desg Ficer
This vicar's desk comes from the now demolished St Illtyd's church on Mynydd Illtyd just west of Brecon. It was an isolated church, originally in Defynnog parish, so the vicar had to ride four miles	Daw'r ddesg ficer hon o eglwys Sant Illtyd ar Fynydd Illtyd, sydd wedi ei dymchwel bellach, tua'r gorllewin o Aberhonddu. Eglwys ynysig oedd hi, ym mhlwyf Defynnog yn wreiddiol, felly bu'n rhaid i'r ficer farchogaeth bedair

over the mountains to get there. St Illtyd's later came under Llanspyddid parish before being pulled down.	milltir dros y mynyddoedd i'w chyrraedd. Yn ddiweddarach, daeth Sant Illtyd yn rhan o blwyf Llansbyddy, cyn cael ei dymchwel.
Int 55 DL1 / 2	
Brecon stocks	Cyffion Aberhonddu
The stocks were instruments of punishment, usually for minor misdemeanours such as drunkenness or public disorder. These Brecon stocks were for three people and the offenders' hands and legs were secured through the holes. Apart from the physical discomfort and exposure to the elements, the offenders would be exposed to public humiliation and occasionally assault.	Offerynnau cosbi oedd y cyffion, ar gyfer achosion bach o gamymddwyn fel arfer, megis meddwdod neu anhrefn cyhoeddus. Defnyddiwyd y cyffion ar gyfer tri unigolyn gan gau dwylo a choesau'r troseddwr yn y tyllau. Yn ogystal ag anesmwythder corfforol a bod allan ym mhob tywydd, byddai'r troseddwr yn agored i gywilydd cyhoeddus ac ymosodiadau o bryd i'w gilydd.
Int 57 DL35	
Proclamation Stone	Carreg Gyhoeddi
In 1888 Gorsedd Stones were erected as a standing stone circle in Brecon. They marked the proclamation that the National Eisteddfod would be held there a year and a day later in 1889. The ceremony was conducted in the grounds of Brecon castle and the proclamation outlined the competitions to be held at the Eisteddfod.	Ym 1888, codwyd Cerrig yr Orsedd ar ffurf cylch o feini hirion yn Aberhonddu. Roeddent yn nodi'r cyhoeddiad y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yno flwyddyn a diwrnod yn ddiweddarach ym 1889. Cynhaliwyd y seremoni ar dir castell Aberhonddu ac roedd y cyhoeddiad yn nodi'r cystadlaethau a fyddai'n cael eu cynnal yn yr Eisteddfod.
Int 58 DL33	
Welsh Bible	Beibl Cymraeg
This Bible was printed in Trefecca near Llan-gors, in 1790. Rev. Peter Williams of Trefecca and David Jones, a Baptist minister in Pontypool, worked together to produce this annotated pocket Bible to reach a wider public. Some 4,000 copies, bound in calf skin, were printed and sold at six shillings each.	Argraffwyd y Beibl hwn yn Nhrefeca ger Llan-gors, ym 1790. Cydweithiodd y Parch. Peter Williams o Drefeca a David Jones, Gweinidog y Bedyddwyr ym Mhont-y-pŵl, i greu'r Beibl poced anodedig hwn er mwyn cyrraedd cyhoedd ehangach. Argraffwyd a gwerthwyd oddeutu 4,000 o gopiau, a rwymwyd gyda chroen lloi, am chwe swllt yr un.
Int 59 DL33	
First edition Welsh Bible	Yr argraffiad cyntaf o'r Beibl Cymraeg
William Morgan first translated the Bible into Welsh in 1588, but in 1620 Richard Parry, Bishop of St Asaph, produced this revised edition which corrected the print	Cyfieithodd William Morgan y Beibl i'r Gymraeg am y tro cyntaf ym 1588, ond ym 1620, cyhoeddodd Richard Parry, Esgob Llanelwy, yr argraffiad diwygiedig hwn a

errors in the earlier version. It became the standard Welsh Bible for the next four centuries, helping to save the Welsh language. This first edition came from St. Mary's Church, Bronllys.	gywirodd y gwallau argraffu yn y fersiwn gynharach. Hwn oedd y Beibl Cymraeg safonol am y pedair canrif nesaf, gan helpu i achub y Gymraeg. Daeth yr argraffiad cyntaf hwn o Eglwys y Santes Fair, Bronllys.
Int 61 DL23	
Wooden cheese vat	Cawslestr pren
This wooden cheese vat from Builth Wells is typical of vats used on farms across Brecknockshire in the 19th and early 20th centuries. Warm milk was separated into whey and curds. The curds were wrapped in cheesecloth and pressed inside the vat. Excess whey drained through the holes in the bottom of the vat.	Mae'r cawslestr pren hwn o Lanfair-ym-Muallt yn nodweddiadol o'r cawslestri a ddefnyddiwyd ar ffermydd ledled Sir Frycheiniog yn ystod y 19 ^{eg} ganrif a dechrau'r 20 ^{fed} ganrif. Byddai llaeth cynnes yn cael ei wahanu'n geuled a maidd. Byddai'r ceuled yn cael ei lapio mewn lliain caws a'i wasgu i'r cawslestr. Byddai'r maidd dros ben yn cael ei ddraenio trwy'r tyllau yng ngwaelod y cawslestr.
Int 62 DL33	
Wooden cheese vat follower	Dilynydd cawslestr pren
A cheese vat follower acted as lid to a cheese vat. The follower was placed on the fresh curds which had been wrapped in cheesecloth in the vat. The vat was then placed in a cheese press. Pressure on the follower squeezed liquid whey from the curds to make cheese.	Roedd dilynwr cawslestr yn gweithredu fel caead ar gyfer cawslestr. Byddai'r dilynydd yn cael ei osod ar y ceuled ffres a oedd wedi ei lapio mewn lliain caws yn y cawslestr. Yna byddai'r cawslestr yn cael ei roi mewn gwasg gaws. Byddai pwysau ar y dilynydd yn gwasgu maidd hylifol o'r ceuled i wneud caws.
Submitted by: Liz Bickerton	Date: 26/08/2019
Completed by:	Date: .././2019